

## AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

29 Mawrth 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Mr A Archer, y Cynghorydd ML Evans, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, y Cynghorydd S Hudson, y Cynghorydd L Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

*[Roedd y Cynghorydd R Kilmister wedi ymddiheuro gan ddweud y byddai'n hwyr a chyrhaeddodd yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 03/17 Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol]*

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 12.35pm)

### 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms C Gwyther a'r Cynghorydd D Rees.

### 2. Datgelu Buddiant

Datgelodd Mr A Archer fuddiant personol, ond nid buddiant niweidiol, yn Adroddiad 11/17 Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ac arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth; datgelodd y Cynghorydd RM Lewis fuddiant niweidiol yn Adroddiad 12/17 Tyddewi, Dinas Diwylliant, a datgelodd Mr A Sangster fuddiant niweidiol yn Adroddiad 14/17 Prydles Sgowtiaid Sain Ffraid a gadawodd y ddau Aelod y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

### 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2017 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2017 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion:

Cynllunio'r Gyllideb Ddrafft 2017/18 (Cofnod 8)

Dywedodd y Prif Weithredwr, o ganlyniad i danwariant gan Lywodraeth Cymru yng nghyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig, fod tua £700,000 o



gyllid ychwanegol wedi dod i law tuag at y prosiect Llwybrau (y prosiect a olynodd Eich Parc) a'r prosiect Pwyth yn ei Bryd; ar gyfer uwchraddio'r peiriannau tocynnau meysydd parcio i ganiatáu talu heb arian; ar gyfer gwaith i hyrwyddo Blwyddyn y Môr a Llwybr Arfordir Cymru; ac i gynnal gweithgareddau ynghylch gweithredu Tirweddau'r Dyfodol ar ran yr holl dirweddau dynodedig yng Nghymru. Byddai'r arian yn ymddangos yng nghyfrifon yr Awdurdod fel arian wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer y gwahanol brosiectau. Roedd yr Aelodau'n falch bod arian ychwanegol wedi dod i law ar gyfer y prosiectau pwysig hyn.

## **NODWYD**

### **5. Adroddiadau o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod**

Cafodd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2016;
- (ii) y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2017;
- (iii) Pwyllgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2017.

### **6. Cylch Gorchwyl Partneriaeth Natur Sir Benfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Ant Rogers, y Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro, i'r cyfarfod. Eglurodd y swyddog fod Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi bod yn rhan o'r Grŵp Llywio ar gyfer y Partneriaeth ers ei sefydlu ryw 19 mlynedd ynghynt a'i fod yn darparu cyfraniad o arian parod ac amser swyddog tuag at ei gwaith. Rôl allweddol y Partneriaeth oedd gweithio gyda rhanddeiliaid i leihau dyblygu rhwng partneriaid, yn ogystal â bod yn rhyngwyneb rhwng y llywodraeth a'r dyheadau lleol. Mae'n gweithio ar bob lefel ledled y Sir a chyflwynodd y swyddog rai enghreifftiau i ddangos hyn.

Soniwyd fod y strwythurau llywodraethu ar gyfer cyflwyno camau cadwraeth yng Nghymru yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac er mwyn sicrhau cysondeb â'r cynllun cenedlaethol, byddai'r partneriaethau lleol yn cael eu hadnewyddu a'u hail-frandio fel 'Partneriaethau Natur', gan ehangu eu cylch gwaith ac alinio â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae ailwampio ac ail-frandio Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn Partneriaeth Natur Sir Benfro yn rhan o'r broses ehangach hon ac yn gosod y Partneriaeth o



fewn y fframwaith newydd heb golli'r rhwydweithiau a'r berthynas waith agos a gafodd ei meithrin gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro.

Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer y bartneriaeth newydd yn atodedig i'r adroddiad, ac felly cafodd yr aelodau gyfle i adolygu ei drefniadau aelodaeth a chraffu yn y gobaith y gellid sicrhau cyfranogiad gan sylfaen mor eang â phosibl o randdeiliaid.

Gofynnodd yr Aelodau pa sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Grŵp Llywio ac fe'u hysbyswyd ei fod yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth am ei gyflwyniad a fu o gymorth mawr i'r Aelodau. Awgrymodd y Prif Weithredwr fod adroddiad blynyddol ar waith y Bartneriaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, a chytunwyd ar hyn.

**PENDERFYNWYD** fod y Cylch Gorchwyl ar gyfer Partneriaeth Natur Sir Benfro yn cael ei fabwysiadu.

## 7. **Cynllun Corfforaethol 2017/18**

Soniwyd, o dan y Mesur Llywodraeth Leol, ei bod yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut y byddent yn cyrraedd y nodau lles a sut yr oeddynt wedi cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn eu gwaith. Felly, er mwyn osgoi dyblygu, diben y Cynllun Corfforaethol oedd cyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod, a allai hefyd gael eu hystyried yn amcanion gwella.

Atgoffwyd yr Aelodau fod y Cynllun Corfforaethol drafft wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2016 ac wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ystod mis Chwefror. Nid oedd sylwadau allanol wedi dod i law; fodd bynnag, roedd mân newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn sylwadau ac adborth gan staff.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y cynllun, gan ddweud iddo gael ei roi at ei gilydd yn dda a'i fod yn hawdd i'w ddarllen.



**PENDERFYNWYD** fod Cynllun Corfforaethol 2016/17 yn cael ei gymeradwyo.

*[Datgelodd Mr A Archer fuddiant personol, ond nid buddiant niweidiol, yn yr eitem ganlynol ac arhosodd yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.]*

#### 8. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17**

Soniwyd fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod o ran sicrhau gwelliant parhaus mewn perfformiad, nodi systemau rheoli a phrosesau, a thynnu sylw at faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Roedd y gwaith o baratoi'r datganiad drafft yn cynnwys ystyried gwybodaeth o nifer o ffynonellau fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y Datganiad wedi cael ei adolygu gan Aelodau'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol ym mis Chwefror 2017, ac o ganlyniad roedd rhai materion llywodraethu ychwanegol wedi cael eu nodi yn adran VI y ddogfen, ynghyd â'r camau i'w cymryd.

**PENDERFYNWYD** fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 yn cael ei gymeradwyo.

*[Datgelodd y Cynghorydd RM Lewis fuddiant niweidiol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.]*

#### 9. **Tyddewi, Dinas Diwylliant 2021**

Soniwyd fod rhaglen Dinas Diwylliant y DU wedi deillio o lwyddiant Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Roedd yn gynllun Llywodraeth y DU. Derry oedd y Ddinas Ddiwylliant y DU gyntaf, a Hull oedd Dinas Ddiwylliant y DU 2017.

Nod y rhaglen oedd annog y defnydd o ddiwylliant a chreadigrwydd fel catalydd ar gyfer adfywio economaidd a chymdeithasol, er mwyn hybu partneriaethau newydd ac i annog uchelgais, arloesedd ac ysbrydoliaeth mewn gweithgaredd diwylliannol a chreadigol. Y bwriad oedd sicrhau newid sylweddol yn adfywiad ardal a chreu etifeddiaeth barhaus. Roedd hefyd yn gyfle i arddangos diwylliant lleol i'r byd, gan fod y dyfarniad yn denu sylw sylweddol yn y cyfryngau ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.



Yn dilyn trafodaethau, roedd grŵp partneriaeth gychwynnol, yr oedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhan ohono, wedi cyfarfod ar 20 Chwefror 2017 i benderfynu cwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru, sef 28 Chwefror. Roedd y cais yn cael ei arwain gan Gyngor Dinas Tyddewi a Chyngor Sir Penfro, ac felly roedd Mike Cavanagh, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Sir Penfro, wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r Aelodau.

Esboniodd Mr Cavanagh, er bod y prosiect yn fawr ac yn fwy uchelgeisiol na dim sydd wedi'i wneud yn y Sir erioed o'r blaen, byddai ennill yn dod â chyfle enfawr i'r sir gyfan a thu hwnt, yn sgil effaith economaidd y bobl a fyddai'n ymweld â'r prosiect, a hefyd drwy eu hannog i ddychwelyd eto mewn blynyddoedd i ddod. Aeth ymlaen i amlinellu rhai o'r syniadau a fyddai'n cael eu cynnwys o fewn y cais, er enghraifft cerddoriaeth, celf a chwaraeon, ac esboniodd hefyd fod llawer o waith yn cael ei wneud i ystyried yr isadeiledd y byddai ei angen i'r rhaglen fod yn llwyddiannus.

Roedd yn rhaid cyflwyno cais Cam 1 ar gyfer y rhaglen erbyn 28 Ebrill 2017, a phe byddai Tyddewi ar y rhestr fer, byddai angen cyflwyno cais llawn a therfynol erbyn 29 Medi 2017. Byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2017, gan ganiatáu tair blynedd o amser cynllunio i'r Bartneriaeth.

Wrth gyflwyno cais Cam 1, roedd yn rhaid i bob dinas sy'n ymgeisio ddangos ymrwymiad 'go iawn' ac, o ganlyniad, roedd Cabinet Cyngor Sir Penfro wedi cytuno ar wariant cyfalaf o £5.0 miliwn i gefnogi cais Cam 1 Dinas Diwylliant 2021, ynghyd â £0.8 miliwn o gyfraniad refeniw (o Arian Wrth Gefn) dros gyfnod o bedair blynedd. Felly, roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu cynnig ar gyfer pecyn fesul cam mewn da a chymorth ariannol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn:

- Cam 1 = £15K (£5K mewn da a £10K arian parod)
- Cam II = £35K (£10K mewn da a £25K arian parod)
- Cam III = £510k (£260K mewn da a £250K arian parod)

Roedd pob cam yn dibynnu ar fod y cais yn symud ymlaen yn llwyddiannus.

Er bod yr Aelodau, ar y cyfan, yn cefnogi'r cais, mynegodd rhai beth pryder ynghylch isadeiledd, gan gynnwys capasiti ffyrdd, parcio a llety i ymwelwyr, yn ogystal â'r angen tebygol am adeiladau lled-barhaol ar safleoedd fel



Maes Awyr Tyddewi ar gyfer rhai o'r digwyddiadau arfaethedig. Cytunodd y Swyddog y byddai angen am strwythurau dros dro a fyddai yn eu lle am flwyddyn gyfan ac y byddent o ansawdd da iawn. Fodd bynnag, byddai adeiladau llai a chanolig eu maint, fel eglwysi a chapeli, yn cael eu defnyddio hefyd ar draws y penrhyn. Byddai llawer o ddiwyddiadau awyr agored, gan fanteisio ar y dirwedd fel pwynt gwerthu unigryw yr ardal. Roedd yn cydnabod mai ymdopi â nifer fawr o bobl fyddai un o'r heriau mwyaf ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn ofalus. Byddai rhaglennu deallus yn cael ei ddefnyddio fel na fyddai digwyddiad enfawr yn cael ei drefnu yng nghanol yr haf yn Nhyddewi ei hun – bryd hynny, byddai'r cefnwlod ehangach yn cael ei ddefnyddio. Hefyd byddai cyfleusterau parcio a theithio. Fodd bynnag, ychwanegodd pe na ellid ateb mater yr isadeiledd yn foddhaol, ni fyddai'r cais yn llwyddiannus.

Teimlai Aelod arall fod gan ddinasoedd a oedd â mwy o heriau cymdeithasol well cyfle i ennill, gan nodi bod Tyddewi eisoes yn ddinas ddiwylliannol. Cytunodd y swyddog nad oedd cais Tyddewi yn nodweddiadol, ond bod ganddi rywbeth gwahanol i'w gynnig yn ogystal â bod â nifer o wahanol heriau. Roedd yn credu bod llawer o dlodi gwledig ac amddifadedd yn yr ardal a gallai'r rhaglen hon helpu i fynd i'r afael â hynny, ac roedd hefyd yn credu y byddai manteision i'r ardal, pa un a fyddai cais Tyddewi yn llwyddiannus neu beidio. Cytunodd y Prif Weithredwr, gan ychwanegu bod Oriel y Parc wedi elwa ar gynnydd yn nifer ymwelwyr, ac felly incwm, yn sgil arddangosfeydd Constable a Peter Blake yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cwestiynwyd hefyd rolau diwylliant Cymru a'r môr o fewn y cais. Atebodd y swyddogion fod y naill a'r llall wedi'u cynnwys yn y cais, er bod gofal wedi'i gymryd i wneud yr elfennau iaith Gymraeg yn hygyrch i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr na fyddent yn siarad Cymraeg. Roedd cymorth ehangach hefyd ar gyfer digwyddiad diwylliannol mawr ar Ddydd Gŵyl Dewi ac roedd posibilrwydd y gallai hyn gael ei ddynodi'n wyliau cyhoeddus fel etifeddiaeth.

Gan droi at yr argymhelliad, awgrymodd y Prif Weithredwr fod y rhan gyntaf yn cael ei haddasu i ddileu ail ran y frawddeg ynghylch secondio staff, a chafodd hynny ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- a) bod rôl yr Awdurdod fel partner allweddol yng nghais Tyddewi, Dinas Diwylliant 2021 yn cael ei gymeradwyo; a



- b) bod pecyn allweddol mewn da a chymorth ariannol yn cael ei gytuno fel a ganlyn, gyda phob lefel o gefnogaeth yn ddibynnol ar fod y cais yn symud yn llwyddiannus drwy bob un o'r camau:
- Cam 1 = £15K (£5K mewn da a £10K arian parod)
  - Cam II = £35K (£10K mewn da a £25K arian parod)
  - Cam III = £510k (£260K mewn da a £250K arian parod)

10. **Cymeradwyo Grantiau yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol (Diwygiwyd 2012)**

Atgoffwyd yr aelodau, yn unol ag Adran 78 o Safonau Ariannol yr Awdurdod, bod angen awdurdodiad lle roedd 'Cyfanswm gwerth y Grantiau a'r Nawdd o dan unrhyw un cytundeb yn £10,000'. Ym mlwyddyn ariannol 2017/18 roedd dau daliad yn y categori hwn: taliad o £18,580 i Fforwm Arfordirol Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgaredd arfordirol, a thaliad o tua £72,400 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at y bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro. Roedd manylion y gwaith a wnaed gan y sefydliadau yn yr adroddiad. Gofynnodd yr Aelodau am fanylion pellach am waith Lonydd Glas Sir Benfro a chytunodd y Prif Weithredwr i ofyn i'r swyddog perthnasol ateb eu cwestiynau.

**PENDERFYNWYD** gwneud taliad o £18,580 i Fforwm Arfordirol Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgareddau arfordirol, a thalu tua £72,400 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at y bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro.

*[Datgelodd Mr A Sangster fuddiant niweidiol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.]*

11. **Y diweddaraf am Adnewyddu Prydles Sgowtiaid Sain Ffraid**

Atgoffwyd yr aelodau fod y Sgowtiaid wedi defnyddio'r safle yn Sain Ffraid ers 1982 ac wedi bod mewn meddiant gan dalu rhent hanesyddol o £200 y flwyddyn ers i dymor cytundebol eu prydles ddod i ben yn 2002. Cafodd y mater o adnewyddu'r brydles a'r telerau adnewyddu ei ystyried mewn cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mawrth 2016 pryd y penderfynwyd adnewyddu prydles y Sgowtiaid i ymestyn eu meddiannaeth am gyfnod o 25 mlynedd ar yr amod y cytunir ar lefel dderbyniol o rent ac i gyflwyno hysbysiad o dan Adran 25 o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 i ddod â'r denantiaeth hanesyddol bresennol i ben a gwneud darpariaeth i'r Llys bennu rhent dros dro a rhent y farchnad pe na byddai'r Sgowtiaid a'r Awdurdod hwn yn gallu dod i gytundeb ar fater y rhent.



Roedd y penderfyniad hwnnw wedi'i lywio'n rhannol gan adroddiad prisio ar y cyd a oedd wedi ei gomisiynu gan y Sgowtiaid a'r Awdurdod hwn. Lluniwyd yr adroddiad gan y Prisiwr Dosbarth, a'i farn ef oedd y dylai rhent y farchnad ar gyfer telerau'r brydles arfaethedig fod tua £8,250 y flwyddyn. Nodwyd nad oedd y safle a'i apêl erioed wedi cael ei brofi ar y farchnad.

Ers hynny, mae hysbysiad Adran 25 wedi cael ei gyflwyno i'r Sgowtiaid, yn eu rhybuddio y bydd eu prydles hanesyddol bresennol yn dod i ben ar 1 Mai 2017. Mae'r trafodaethau'n parhau, ond nid oedd yr Awdurdod eto wedi dechrau cais ffurfiol i'r Llys i setlo mater y rhent. Fodd bynnag, roedd y trafodaethau rhent wedi stopio i bob pwrpas gan nad oedd cynnig yr Awdurdod o rent graddol a fyddai'n codi i £5,000 y flwyddyn erbyn blwyddyn 5, wedi cael ei dderbyn. Roedd y Sgowtiaid wedi cynnig rhent graddol yn cynyddu i rent gwarantedig o £1,500 y flwyddyn gyda mecanwaith 'hufen' yn seiliedig ar enillion unrhyw warged gweithredol y gallant eu datgan hyd at uchafswm o £5,000 y flwyddyn erbyn blwyddyn 6.

Roedd gan rai Aelodau amheuan am werth y rhent ar y safle a theimlwyd y dylai'r Awdurdod fod yn ceisio helpu'r Sgowtiaid, sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd. Felly cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn cynnig y Sgowtiaid i dalu rhent graddol a fyddai'n £1,500 y flwyddyn erbyn blwyddyn 6 yn ogystal â 100% o warged gweithredol hyd at uchafswm rhent o £5,000 y flwyddyn.

Wrth fynegi cefnogaeth i'r Sgowtiaid, dywedodd Aelodau eraill fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros reolaeth ariannol da yn ogystal â thegwch i eraill yr oedd yn prydlesu tir ac adeiladau iddynt. Roedd pryder bod yr Awdurdod yn gosod cynsail o waredu asedau ar delerau ariannol llai ffafriol ac roedd yn rhaid i'r Aelodau fod yn glir pam fod consesiwn o'r fath yn cael ei wneud. Awgrymwyd hefyd bod angen sicrhau mwy o gyfaddawd a chynigiwyd y dylid cyflwyno rhent graddol a fyddai, erbyn blwyddyn 7, yn £5,000 y flwyddyn, ynghyd â chymal adolygu bryd hynny. Ni chafodd hyn ei eilio ac fe'i tynnwyd yn ôl.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch gallu'r Awdurdod i gael y gwarged gweithredol ym mlynnyddoedd 3 i 6 fel y nodir yng nghynnig y Sgowtiaid, oherwydd teimlwyd bod hyn yn rhy amwys. Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y rhent yn cael ei osod ar £1,000 ym mlwyddyn 1, yn cynyddu o £1,000 bob blwyddyn ac felly yn cyrraedd £5,000 ym mlwyddyn 5. Gellid





hefyd ystyried cynnig opsiwn seibiant. Cynhaliwyd pleidlais ar hyn ac fe'i derbyniwyd.

Gofynnodd y Prif Weithredwr beth ddylai ymateb yr Awdurdod fod pe na bai'r Sgowtiaid yn derbyn y telerau hyn, gan dderbyn bod ganddynt hawl o hyd, o dan y broses a gychwynnwyd drwy gyflwyno'r hysbysiad Adran 25, i geisio penderfyniad y Llysoedd ar fater rhent y farchnad. Cafodd y sefyllfa wrth gefn yn yr adroddiad, sef bod yr Awdurdod i gymryd y camau angenrheidiol i'r Sgowtiaid ildio'r safle i'r Awdurdod gyda meddiant gwag, ei gynnig a'i eilio. Derbyniwyd hynny drwy bleidlais.

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- a) bod cynnig yn cael ei wneud i'r Sgowtiaid o £1,000 o rent ym mlwyddyn 1, yn cynyddu o £1,000 bob blwyddyn, gan gyrraedd £5,000 ym mlwyddyn 5;
- b) os na fyddai'r Sgowtiaid yn derbyn y cynnig hwn, bod yr Awdurdod yn cymryd y camau angenrheidiol i'r Sgowtiaid ildio'r safle i'r Awdurdod gyda meddiant gwag.

## 12. **Strategaeth Iaith Gymraeg Drafft 2017-2022**

Atgoffwyd yr Aelodau fod Comisiynydd y Gymraeg, ar 30 Medi 2015, wedi rhoi Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg er mwyn hwyluso ei defnydd yn ehangach yn yr ardal.

Roedd strategaeth ddrafft ynghlwm i'r Aelodau ei hystyried, a gofynnwyd i hyn gael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori â chyrff/sefydliadau perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD** fod y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2017 - 2022 yn cael ei derbyn at ddibenion ymgynghori.

## 13. **Adolygu a Diwygio Dogfennau Cyfeirio'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Dywedodd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy fod adolygiad o ddogfennau cyfeirio'r Gronfa wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a bod y diwygiadau i ddiweddarau polisi'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac amodau'r Grant wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant



Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, geiriad mwy diweddar ynghylch cynrychiolaeth Aelod Ymgynghorol; gweithdrefnau ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau, a chynnwys amod grant newydd er mwyn galluogi'r Awdurdod i fonitro cynnydd prosiectau ar ôl i gyllid prosiect ddod i ben er mwyn canfod llwyddiannau'r prosiect.

**PENDERFYNWYD** fod dogfennau polisi'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac Amodau Grant yn cael eu cymeradwyo.

#### 14. **Taliadau Aelodau 2017/18**

Soniwyd fod Adroddiad Blynyddol Panel Taliadau Annibynnol Cymru wedi cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017. Roedd dyfyniadau perthnasol ohono ynghlwm wrth adroddiad y swyddog, ac roedd crynodeb o'r prif newidiadau i daliadau'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, fel a ganlyn: cynnydd yn y Cyflog Sylfaenol ar gyfer 'Aelodau cyffredin' o £3,600 i £3,625 y flwyddyn; cynnydd yn y Cyflog Uwch sy'n daladwy i Gadeirydd yr Awdurdod o £12,300 i £12,325 y flwyddyn; ni fu unrhyw gynnydd yn y Cyflog Uwch sy'n daladwy i Is-gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion Pwyllgorau eraill (hyd at ddau), ond byddai deiliaid y swyddi hyn yn derbyn y codiad yn y cyflog sylfaenol a delir i 'Aelodau cyffredin'; roedd y Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i wneud cais am Gyflogau Uwch penodol neu ychwanegol nad oedd yn dod o fewn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol; ac roedd trefniadau penodol wedi'u cyflwyno i ddarparu ar gyfer salwch tymor hir (mwy na 4 ond dim mwy na 26 wythnos) deiliaid Cyflog Uwch. Byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017.

Nid oedd newidiadau wedi eu gwneud i'r ffioedd sy'n daladwy i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, nac i lefel y cyfraddau teithio a chynhaliadau. Ni fu newid ychwaith i lefel ad-dalu costau gofal i Aelodau, er bod y ffordd y mae'r costau arbennig hyn i gael eu cyhoeddi wedi newid - gallai Awdurdodau naill ai roi manylion y swm a ad-dalwyd i bob Aelod wrth eu henwau neu gyhoeddi'r cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn, ond heb ei briodoli i unrhyw Aelod.

Roedd gan yr Awdurdod hawl i dalu Cyflog Uwch ar gyfer hyd at bedair swydd (Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â dau Gadeirydd Pwyllgor). Roedd tri yn derbyn tâl ar hyn o bryd: Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Roedd y Cyflog Uwch a oedd yn cael ei dalu ar hyn o bryd i Is-gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor yr un fath (Lefel 2), er bod y Panel wedi dod i'r



casgliad y gallai'r Awdurdod benderfynu ar ba un o'r ddwy lefel y dylai'r swyddi hyn gael eu talu.

Felly, gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi ddylai fod yn gymwys i dderbyn Cyflog Uwch ar gyfer 2017/18; pa lefel o gydnabyddiaeth ddylai fod yn daladwy i swyddi Is-gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion Pwyllgorau; sut y byddai'r Awdurdod yn cyhoeddi manylion unrhyw gostau gofal sy'n cael eu had-dalu; ac uchafswm nifer y diwrnodau mewn unrhyw flwyddyn y caniateir i Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau dderbyn tâl.

Roedd yr Aelodau'n fodlon ar y swyddi a oedd yn gymwys ar hyn o bryd i dderbyn Cyflog Uwch a lefel y cyflog a delir i ddeiliaid y swyddi hynny. Fodd bynnag, nodwyd fod yr Awdurdod wedi ffurfio Pwyllgorau Craffu yn y gorffennol a bod Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny wedi gwneud gwaith ychwanegol; gofynnwyd a fyddai'n bosibl talu'r Aelodau hynny yn y dyfodol. Atebodd y swyddogion gan mai dim ond tair swydd sy'n derbyn tâl ar hyn o bryd, y gallai swydd ychwanegol fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu gael tâl am gyfnod y gwaith a wnaed, ac y gellid gwneud penderfyniad ar hyn ar yr adeg briodol.

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- a) nodi Adroddiad Blynyddol Panel Taliadau Annibynnol Cymru ar gyfer 2017/18;
- b) bod swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn derbyn Cyflog Uwch;
- c) bod Cyflog Uwch ar lefel 2 yn cael ei dalu i Is-gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu;
- d) bod y nifer uchaf o ddiwrnodau y caniateir talu Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol mewn unrhyw flwyddyn yn parhau i fod yn 4 diwrnod y flwyddyn, ac
- e) bod manylion unrhyw gostau gofal a gaiff eu had-dalu i'r Aelodau yn cael eu cyhoeddi fel cyfanswm, heb eu priodoli i unrhyw Aelod wrth ei enw.

#### 15. **Calendr Cyfarfodydd 2017/18**

Atgoffwyd yr Aelodau fod y calendr presennol o gyfarfodydd yn dod i ben ym mis Mehefin yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac felly cyflwynwyd calendr newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.



**PENDERFYNWYD** fod y calendr o gyfarfodydd ar gyfer 2017/18 yn cael ei gymeradwyo.

**16. Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr**

Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod, ar 31 Mawrth 2010, wedi sefydlu Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr gyda'r bwriad o osod ac adolygu targedau ac amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr am y flwyddyn i ddod. Roedd y Panel yn cynnwys tri Aelod, a ddewisir yn flynyddol o swyddi uwch o fewn yr Awdurdod (Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol, y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu) yn eu tro hyd nes ceir cymhareb o y 2:1 rhwng Aelodau'r Cyngor Sir ac Aelodau Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, roedd y Panel yn cael ei gadarnhau mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn galendr ac roedd yr un tri Aelod yn gwasanaethu ar y Panel drwy gydol y flwyddyn, boed yn dal yn eu swyddi eu hunain ai peidio, er mwyn sicrhau cysondeb dros osod ac adolygu amcanion ar gyfer y flwyddyn honno.

Er mwyn ceisio symleiddio'r broses, cynigiwyd dirprwyo'r dasg o gadarnhau aelodaeth y Panel i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod, a bod y Panel yn cael ei sefydlu ar ôl i holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol gael eu hethol mewn unrhyw un flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- a) bod aelodaeth y Panel yn cynnwys tri Aelod fel ar hyn o bryd;
- b) bod y Panel yn cael ei sefydlu ar ôl i holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgorau perthnasol gael eu hethol mewn unrhyw un flwyddyn; ac
- c) bod y dasg o gadarnhau aelodaeth y Panel yn cael ei dirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod.

**17. Ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y caiff gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**



**PENDERFYNWYD** y dylai'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y caiff gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

18. **Gwaredu Daliad Tir yr Awdurdod, a elwir yn Safle Carafannau'r Parc Cenedlaethol, Sageston**

Atgoffwyd yr aelodau fod y tir hwn yn safle tir llwyd 8 erw ar gyrion deheuol Sageston a oedd ym meddiant rhydd-ddaliad yr Awdurdod gyda meddiannaeth wag lawn. Roedd yn fwy o dir nag yr oedd yr Awdurdod ei angen ac roedd caniatâd cynllunio amlinellol wedi ei roi ar 30 Mehefin 2016 ar gyfer codi rhwng 90 a 100 o anheddau. Mewn cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Awst 2013, penderfynwyd pe byddai caniatâd cynllunio amlinellol yn cael ei roi y dylai swyddogion fynd ati i farchnata'r safle a rhoi diweddariad i'r Aelodau, gan gynnwys argymhellion ar gyfer cael gwared ar y safle cyn i'r caniatâd cynllunio amlinellol hwnnw ddod i ben.

Roedd adroddiad ar yr ymarfer marchnata cychwynnol wedi dod i law erbyn hyn ac roedd ar gael i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo camau gweithredu'r swyddogion, sy'n cynnwys y cynnig o gyfnod dethol o 3 mis i Gymdeithas Tai Sir Benfro i fynd ar drywydd dull partneriaeth arfer gorau o ran darparu tai fforddiadwy ar dir sydd ar hyn o bryd yn eiddo cyhoeddus.

19. **Ymddeoliad y Pennaeth Cyflawni**

Soniwyd fod Pennaeth Cyflawni'r Awdurdod, Mr Charles Mathieson, yn ymddeol y diwrnod hwnnw ar ôl gwasanaethu'r Awdurdod am 27 mlynedd. Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad yr Aelodau am ei gyfraniad i waith yr Awdurdod.

**NODWYD.**

